**ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO (2) 01-03: PARHAU I ADFYWIO BAE CAERDYDD**

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion y Pwyllgor Archwilio yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd ar 24 Gorffennaf 2003**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb hwn i'w ganlyniadau a'i argymhellion.

Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn trefnu bod Staff Uwch y Cynulliad, Swyddogion Cyfrifo y Cynulliad a Swyddogion Cyfrifo y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn derbyn copïau o'r ymateb er mwyn iddynt roi ystyriaeth iddo a rhoi ar waith y camau gweithredu perthnasol sy'n deillio o argymhellion y Pwyllgor.

**i) Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad adolygu'r cymalau archwilio safonol mewn contractau a chytundebau grant sy'n delio â hawliau mynediad i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon penodol a chadarn. Rydym hefyd yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad ymateb mewn ffordd gadarn os bydd hawliau mynediad llawn ei harchwilwyr a'i harolygwyr yn cael eu herio mewn ffordd debyg yn y dyfodol.**

Cytuno. Mae canllawiau'r Cynulliad ar Amodau a Thelerau grantiau a chontractau yn nodi'n benodol: "*Cedwir yr hawliau mynediad ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae hawl gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny y darparwyd grant ar eu cyfer."* Os bydd amserlen Seneddol y DU yn caniatáu hynny, mae Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ychwanegu at hawliau mynediad statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

**ii)Rydym yn argymell bod yr holl gytundebau a chontractau sy'n ymwneud â grantiau neu daliadau tebyg gan y Cynulliad yn ei gwneud yn gwbl glir na fydd grantiau'n cael eu rhoi cyn bod angen amdanynt, ac mai eu diben, yn hytrach, yw talu am wariant perthnasol wrth iddo ddigwydd;**

Cytuno. Mae canllawiau'r Cynulliad ar Amodau a Thelerau grantiau a chontractau yn nodi'n benodol ym mha ddull y caiff yr arian ei sbarduno. Fel arfer gwneir hyn ar gyfnodau penodol naill ai ar ôl derbyn anfonebau am wariant sydd wedi'i ardystio neu geisiadau sydd wedi'u hardystio gan archwilwyr y sefydliad. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff taliadau cychwynnol eu rhoi ymlaen llaw e.e i gorff gwirfoddol llai o faint er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cwblhau prosiect. Seilir y taliadau sy'n weddill ar y gwariant wrth iddo ddigwydd, gan roi ystyriaeth i'r taliad cychwynnol.

**iii) Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cytundebau ariannu fel cytundebau Adran 165 gyda Chyngor Sir Caerdydd, yn y dyfodol, yn cael eu hategu o'r dechrau'n deg gan gytundeb ariannol digon manwl, a bod unrhyw faterion sy'n cael eu gadael i'w penderfynu yn ddiweddarach yn cael eu monitro'n agos a'u penderfynu cyn gynted â phosibl;**

Cytuno. Er bod yna amgylchiadau eithriadol yn achos y cytundebau gyda Chyngor Caerdydd, y mae eisoes yn arferol i sicrhau bod y cytundebau ariannol priodol yn eu lle ar y cychwyn cyntaf.

**iv) Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn gwneud popeth o fewn ei allu i gwblhau'r trefniadau ar gyfer yr archwiliad a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn gyflym.**

Cytuno. Mewn perthynas â'r taliadau grant i Gyngor Sir Caerdydd mae Cyfarwyddiadau'r Dystysgrif (sy'n nodi cwmpas yr archwiliadau a'r profion sy'n rhaid eu cynnal) bellach wedi eu cytuno â'u cyhoeddi. Mae archwilwyr penodedig y Comisiwn Archwilio eisoes wedi mynd i'r afael â llawer o'r gwaith archwilio ac maent yn rhoi blaenoriaeth i gwblhau'r archwiliad o'r ddwy flynedd ariannol gyntaf (2000-01 a 2001-02) erbyn diwedd mis Hydref 2003. Bydd swyddogion y Cynulliad yn cydweithio'n agos gyda'r Comisiwn Archwilio er mwyn sicrhau bod Cyfarwyddiadau'r Dystysgrif ar gyfer y drydedd flwyddyn a'r blynyddoedd sy'n dilyn hynny, yn cael eu cyhoeddi ar amser.

**v)Rydym yn annog y Cynulliad i ymdrechu hyd yr eithaf i ofalu bod y gweithgareddau adfywio a wneir gan y cyrff olynu yn cael eu gwneud yng nghyd-destun strategaeth glir ar gyfer ardal Bae Caerdydd sy'n cynnwys targedau a blaenoriaethau clir. Rydym hefyd yn disgwyl i gynigion am brosiectau a ariennir yn uniongyrchol gan y Cynulliad gael eu cymeradwyo cyn bod angen yr arian.**

Ym mis Gorffennaf 1997, yn dilyn cyfnod ymgynghori, penderfynodd Llywodraeth y dydd y dylai Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddod i ben ac y dylai statws a chymorth arbennig yr ardal ddod i ben. Fel y nodwyd yn ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad blaenorol y Pwyllgor (03-02 'Diogelu Dyfodol Bae Caerdydd'), ym mis Mawrth 2000 adenillodd Cynghorau Caerdydd a'r Fro gyfrifoldebau dros adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer eu holl ardaloedd gan gynnwys y rhai hynny a fu'n gyfrifoldeb Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Gallant ddefnyddio gwasanaethau Awdurdod Datblygu Cymru a sefydliadau eraill fel yng ngweddill Cymru. Wrth gwrs, byddai'r olaf yn cynnwys gwahanol gynlluniau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau â diddordeb yn y datblygiadau yn ardal Bae Caerdydd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio'n agos gyda phob corff sy'n olynu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd - gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru a wnaeth etifeddu asedau datblygadwy a chyfrifoldeb am brosiect PFI Rhodfa Bute – er mwyn monitro'u

goblygiadau o dan 'Gytundebau a165'. Mae'r cyfarfodydd gyda'r cyrff olynu hefyd yn trafod materion ehangach sy'n ymwneud ag adfywio yn ardal Bae Caerdydd. Mae uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac uwch swyddogion y Cyngor hefyd yn cyfarfod i drafod amryw o faterion gan gynnwys Bae Caerdydd. Yn ogystal bydd y broses arfaethedig o werthuso llwyddiant y gwaith o adfywio Bae Caerdydd ers i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddod i ben hefyd yn bwysig.

O dan Gytundebau a165, mae Cyngor Caerdydd wedi etifeddu rhywfaint o gyfrifoldebau adfywio a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Mewn gwirionedd, roedd gan y Cyngor gronfa adfywio gwerth £0.150 miliwn, ar ôl y taliad cyfalaf o £5.95 miliwn am y tir yn Ferry Road. Etifeddodd y Cyngor rai prosiectau oddi wrth Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a derbyniodd ychydig o dan £5 miliwn er mwyn cwblhau’r prosiectau a gynlluniwyd ganddynt yn ogystal â’r prosiectau a oedd ar eu hanner. Cytunwyd ar Raglen Adfywio / Cronfa Brosiect Gyfun ar gyfer 2000-01 hyd 2002-03 gyda Chaerdydd. Er gwybodaeth, yr oedd y rhaglen hon, yn ogystal ag ymdrin â gwariant y rhaglen adfywio/cronfa brosiect, yn cynnwys rhestr o brosiectau yr oedd y Cyngor wedi'u cwblhau i helpu cymunedau yn ardal y Bae neu brosiectau a oedd wedi eu cynllunio yn unol â'i hawl.

Mae angen caniatâd Llywodraeth y Cynulliad cyn gwario unrhyw beth nad yw wedi ei nodi gan y Cytundebau A165.

**vi)Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn adolygu'r arweiniad diweddar ar werthuso ac yn ei adlewyrchu hyd y gellir yn y fanyleb ar gyfer yr adolygiad arfaethedig o'r buddsoddiad cyhoeddus ym Mae Caerdydd. Dylai'r adolygiad fod mor gynhwysfawr â phosibl wrth asesu'r effaith ehangach ar Gymru; a**

Cytuno. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth i'r arweiniad diweddar ar werthuso wrth lunio'r fanyleb gan gynnwys "Appraisal and Evaluation in Central Government" (Y Llyfr Gwyrdd). Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r gwerthusiad asesu'r effaith ehangach ar Gymru a chaiff y mater hwn hefyd ei adlewyrchu yn y fanyleb.

**vii)Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad ein sicrhau y bydd yr adolygiad sydd ar fin ymddangos o fuddsoddiad cyhoeddus ym Mae Caerdydd yn ymwneud yn bennaf â dadansoddi'r data perfformiad, yn hytrach na'i gasglu. Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r cyfrifoldeb am fonitro pob un o'r prif dargedau i'r cyrff olynol sydd yn y sefyllfa orau i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol, a bod y canlyniadau cyffredinol yn cael eu coladu'n ganolog fel sail i strategaeth yn y dyfodol.**

Yn wir, bydd yr adolygiad sydd ar fin ymddangos yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi effeithlonrwydd/effeithiolrwydd y buddsoddiad cyhoeddus yn hytrach na chasglu data perfformiad. Bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau gyda'r cyrff olynol perthnasol er mwyn darganfod y dulliau gorau o fonitro a chofnodi allbynnau yn y

dyfodol yn erbyn prif dargedau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

**viii) Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'i gwaith goruchwylio, gymryd camau i sicrhau bod tanwariannau yn cael eu clustnodi i'w buddsoddi ym Mae Caerdydd yn y dyfodol.**

Cytuno. Trwy ddefnyddio trefniadau monitro effeithiol a pharhaus bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod tanwariannau yn cael eu clustnodi er budd Bae Caerdydd yn y dyfodol.